**Dyddiad:** **12 Mawrth 2003**
**Amser:** **9.00 – 12.30**
**Lleoliad:** **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Astudiaeth Cwmpas: Adolygiad Polisi Diwylliant Eingl-Gymreig.**

**Papur cyflwyno: Janek Alexander (Cyfarwyddydd - Canolfan Celfyddydau Chapter)**

## Beth yw Chapter?

Mae Chapter wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant cyfoes, meithrin talent newydd a darparu mynediad cyhoeddus i'r celfyddydau.

Agorwyd y ganolfan, elusen addysgiadol wedi ei lleoli yng Nghaerdydd, yn 1971; mae'n arbenigo mewn diwylliant cyfoes yn cynnwys sinema, celfyddydau gweledol, celfyddydau digidol a chelfyddydau perfformio. Mae Chapter yn darparu llwyfan ar gyfer gwaith sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â chomisiynu a chynhyrchu gwaith newydd.

## Diwylliant Eingl-Gymreig

Mae Chapter yn hyrwyddo diwylliant Eingl-Gymreig ochr yn ochr â gwaith yn yr iaith Gymraeg, yn yr iaith Saesneg o'r tu allan i Gymru a gwaith mewn ieithoedd tramor o fannau ar draws y byd. (Dylid nodi bod lleiafrif arwyddocaol o artistiaid yn awr yn gweithio'n ddwyieithog).

Ar gyfer y papur yma rydym wedi cyfyngu ein cyflwyniad i ddrama, ffilm a llenyddiaeth - mae diwylliant Eingl-Gymreig hefyd yn amlygu ei hun drwy gyfrwng celfyddydau eraill.

Enghreifftiau o waith Eingl-Gymreig cyfoes sy'n cael ei ddatblygu gyda chefnogaeth, cyngor neu gyfleusterau Chapter:

- Yr artist Bethan Huws: cynhyrchwyd ei ffilm *Ion On* - Saesneg ei hiaith - ar y cyd â Chapter a chynhelir ei pherfformiad cyntaf y mis yma cyn ei harddangosiad ym mhafiliwn Cymru, yn Arddangosfa Eilflwydd y Celfyddydau 2003 yn Fenis.

- Mae Cwmni Theatr Volcano wedi ei leoli yn Abertawe a chanddo gysylltiad agos â Chapter; hwy yw un o allforion mwyaf llwyddiannus Cymru ac maent yn creu dehongliadau radical o ddramâu clasurol yn ogystal â chomisiynu testunau gwreiddiol.

- Mae Cwmni Theatr Sgript Cymru wedi ei seilio yn Chapter (mae manylion am eu gwaith yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Diwylliant mewn man arall). Maent yn ymarfer, yn cynnal gweithdai, yn perfformio ac yn cynhyrchu yn Chapter lle mae eu swyddfeydd wedi eu lleoli.

- Mae'r Cyfarwyddydd Mike Pearson wedi ei leoli yn Aberystwyth a Chaerdydd; roedd ei gynhyrchiad theatr gwreiddiol, *Polis,* a gomisiynwyd gan Chapter, yn archwiliad radical o Gaerdydd oedd yn cymysgu drama naratif â chyfranogiad y gynulleidfa; mae Chapter yn cydweithio â Pearson ac eraill i ddatblygu cynyrchiadau newydd ar gyfer Caerdydd 2008.

- Mae'r dramodwyr Roger Williams ac Ed Thomas yn datblygu cynyrchiadau theatr newydd ar y cyd â Chapter. Mae Ed Thomas hefyd yn gyfarwyddydd Fiction Factory, cwmni ffilm a theledu annibynnol wedi ei leoli yn Chapter. Mae drama dditectif Fiction Factory *Mind to Kill* wedi ei gwerthu i 80 o wledydd. Eu prosiect diweddaraf yw *Dal Yma Nawr* - 2000 o flynyddoedd o Farddoniaeth Gymraeg wedi ei gomisiynu gan S4C. Cyhoeddwyd argraffiad newydd o ddramâu Ed Thomas llynedd ac mae ei waith yn parhau i gael ei berfformio o amgylch y byd: bydd Theatr Genedlaethol Bogota yn cynhyrchu fersiwn Sbaeneg o'i ddrama *Gas Station Angel* yn hwyrach eleni.

- Mae gwneuthurwyr ffilm eraill sydd wedi eu lleoli yn Chapter yn cynnwys Joanna Quinn, a enwebwyd ar gyfer Oscar, CF1 Cyf (â'u ffilm gomedi *Plots With A View* - y cast yn cynnwys Christopher Walken, Alfred Molina ac eraill - wedi ei lleoli yng Nghymru) a grwp animeiddio Cinetig sy'n arbenigo mewn prosiectau cydweithrediadol gyda pobl ifanc ar draws de Cymru.

- Mae Chapter yn arddangos ffilmiau lleol, yn cynnwys ffilmiau byr gan wneuthurwyr ffilm ifanc, yn ogystal â dathlu'r ddelwedd symudol sy'n rhan o'n treftadaeth - er enghraifft, penwythnos i gofio'r gwneuthurwr ffilm Kenneth Griffith ar achlysur ei 80fed penblwydd yn 2001. Yn 2002 dathlodd Chapter y cyfarwyddydd Marc Evans a ddechreuodd ei yrfa lwyddiannus drwy addasu *House of America,* trychineb wedi ei seilio yn y Cymoedd gan Ed Thomas; mae yn awr wedi ennill sylw cenedlaethol gyda rhyddhad ei ffilm arswyd *My Little Eye* ar DVD y mis yma. Dechreuodd y cyfarwyddwr Christopher Monger ei yrfa yn Chapter (a ddisgrifia fel "fy ysgol ffilm") cyn cyfarwyddo ffilmiau megis comedi ramantus Hugh Grant, *The Englishman Who Went Up A Hill,* a ffilm Dylan Thomas *The Map of Love* sydd ar fin ymddangos.

- Mae Chapter yn cefnogi trafodaeth feirniadol ac ysgrifennu newydd yn Saesneg drwy gyflwyniadau tymhorol a misol. Tymor blynyddol o gyfweliadau cyhoeddus yw Speakeasy gydag ysgrifenwyr Eingl-Gymreig o dan ofal yr awdur a'r newyddiadurwr Jon Gower. Cyfarfod cyhoeddus misol a llwyfan perfformio ar gyfer barddoniaeth Eingl-Gymreig yw First Thursday. Fforwm misol i artistiaid rhyngddisgyblaethol yw 2nd Wednesday. Noson fisol o ryddiaith a barddoniaeth yw Ellipsis. Llwyfan blynyddol ar gyfer artistiaid ifanc yn gweithio yn y cyfryngau newydd a chelfyddyd perfformio yw Experimentica; mae artistiaid detholedig yn cael eu gwahodd i wyliau yn Ewrop drwy rwydweithio rhwng Chapter a chanolfannau diwylliannol Ewropeaidd eraill.

Cyflwyniad byr i rai o'r artistiaid sy'n cydweithio â Chapter yw hwn.  Bydd astudiaeth cwmpas yn fwy eang, a dylai er enghraifft edrych ar y grefft o adrodd storïau a'r gwyliau celfyddydol a drefnir gan Ganolfan Celfyddydau Sain Dunwyd; dylai glywed oddi wrth Sefydliad Cerddoriaeth Cymru am y modd y mae cerddoriaeth bop wedi datblygu a'r sialensiau sy'n ein hwynebu os yr ydym yn dymuno dwyn buddiannau'r llwyddiant hwnnw i Gymru; dylai ystyried y polisïau blaengarol sydd wedi ceisio datblygu'r is-strwythur diwylliannol yng Nghymoedd De Cymru.

**Y farchnadfa ar gyfer syniadau**

Mewn gair, gellir disgrifio Chapter fel canolfan genedlaethol ar gyfer celfyddydau cyfoes, ond mae'n bwysig i ddeall y gwahaniaethau rhwng Chapter â'r mwyafrif o ganolfannau celfyddydol.

Mae Chapter yn gweithio fel marchnadfa, safle diwylliannol, man lle mae llawer o gelfyddydau'n datblygu gyda'i gilydd, a lle mae celfyddydau a phobl yn cysylltu â'i gilydd.  Nid yw'r ymagwedd gynhwysol yma'n ffitio i mewn yn hawdd i restrau na dadansoddiad yn ôl categori.

Yn eu llyfr *The Independents* (Demos 1999, ISBN 1 898309 96 5) archwiliodd Charles Leadbeater a Kate Oakley pa ffactorau a fedrai egluro'r llwyddiant creadigol eithriadol mewn mannau penodol yn y Deyrnas Gyfunol.  Un o elfennau tyngedfennol y llwyddiant yma a ddynodwyd ganddynt oedd rôl ganolog cyfryngwyr celfyddydol yn natblygiad talent newydd; yn eu hastudiaeth o wahanol ddinasoedd yn y Deyrnas Gyfunol daethant i'r casgliad "bod Chapter yn enghraifft nodedig o'r modd y dylai deorydd diwylliant creadigol weithio".

**Cefnogi Diwylliant Eingl-Gymreig**

Tra bo'r artistiaid Eingl-Gymreig a ddisgrifiwn yma yn rhan o stori lwyddiant dra llewyrchus o safbwynt ariannol, mae'n rhaid gwneud dau bwynt perthnasol. Yn gyntaf nad diwydiant fel y cyfryw yw diwylliant  Cymru - mae ei nodweddion yn rhy amrywiol - ond mae'n wir ei fod yn bodoli o fewn amgylchedd masnachol llym.  Gall fod yn llym iawn.

Roedd y cwmni teledu Teliesyn - ag iddo hanes hir o gynyrchiadau mawr eu parch megis *Cracking Up,* Gwyn Alf Williams ar gyfer Channel Four - wedi ei leoli yn Chapter tan iddo gau yn 2002.  Mewn dadansoddiad meddylgar o'r anawsterau a wynebwyd ganddynt wrth barhau â'u gwaith creadigol yng Nghymru (Planet Chwefror 2003), ysgrifennodd Colin Thomas "mae darlledwyr sefydledig", fel canlyniad i ddyfodiad teledu aml-sianel, "wedi dod yn fwyfwy pryderus am nifer y gwylwyr ac fel canlyniad yn poeni mwy a mwy am apêl y rhaglen i'r gynulleidfa a llai a llai am her a dyfeisgarwch".
Mae polisïau HTV, S4C, C4 a'r BBC yn effeithio ar ddiwylliant yng Nghymru.

Yn ail, tu allan i'r amgylchedd masnachol mae artistiaid yn dal i fod ag angen cefnogaeth ac yn dal i fod ag angen tâl.  Lle mae'r farchnadfa'n methu mae angen ymyrraeth ariannol.  Fel cyfran o'r costau mae'r cymhorthdal sydd ar gael oddi wrth gyrff

cyhoeddus yng Nghymru wedi dirywio dros y degawd diwethaf. Mae'r cynnydd o 23% yn arian Cyngor Celfyddydau Cymru y penderfynwyd arno gan y Gweinidog ar gyfer 2002-2003, i'w groesawu - trosglwyddwyd 15% i'r rhan fwyaf o sefydliadau celfyddydol yn cynnwys Chapter - ond nid yw hynny'n unioni'r cam a wnaethpwyd yn ystod blynyddoedd o ariannu bwriadol isel.

Mae sefydlu Sgrin wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol iawn, eto nid oes ganddo adnoddau'r Cyngor Ffilm na'r Sefydliad Ffilm Brydeinig ac ni all fatsio'r arian y mae'r olaf o'r ddau yn ei fuddsoddi yn y Theatr Ffilm Brydeinig neu'r Wyl Ffilmiau.

Mae'r dirywiad hir-dymor mewn ariannu yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod y rhan fwyaf o artistiaid allweddol yng Nghymru yn eu pedwar a'u pum degau. Roedd cyfnod cynnar eu datblygiad wedi digwydd pan roedd y celfyddydau annibynnol yn gweithredu mewn gwell awyrgylch ariannol; roedd eu talent yn cael ei gydnabod gan sefydliadau fel Chapter â chanddynt arian comisiynu drwy gydol y rhan fwyaf o'r wythdegau; cawsant gymorth a llwyddasant i wneud - ac maent yn parhau i wneud - cyfraniad arwyddocaol i'n diwylliant cenedlaethol.

Mae cenhedlaeth newydd y degawd diwethaf wedi bod yn llai ffodus ac mae hynny wedi bod yn drychineb i Gymru. Yn union fel y mae ffocws economaidd ffenomenon cerddoriaeth Cymru - Stereophonics, Manic Street Preachers, Catatonia - y tu allan i Gymru - felly hefyd y mae'r genhedlaeth ifanc o artistiaid yn eu dauddegau a'u tridegau wedi ymdrechu ac mewn rhai achosion wedi gadael y wlad. Mae Lloegr neu'r Alban - neu brifddinasoedd diwylliannol yr UE - yn well mannau i fod ynddynt o safbwynt ariannu. Mae helpu artistiaid i elwa ar y cyfleoedd hynny yn rhan o waith Chapter, ac mae Chapter yn cynnal cysylltiadau gweithgar â sefydliadau a rhwydweithiau ar draws Ewrop at y pwrpas hwnnw, gan gyd-gynhyrchu a chydweithredu ar brosiectau rhyngwladol.

Nid oes wrth gwrs unrhyw ffin â Lloegr ac rydym fel cynhyrchwyr y celfyddydau yn cystadlu mewn un marchnadfa ar gyfer artistiaid, staff, sylw beirniadol, a chydnabyddiaeth. Tra bo incwm blynyddol Chapter wedi cynyddu, mae grantiau mewn llawer achos wedi gostwng neu wedi methu codi gyfuwch â chwyddiant. Mae'r gwahanrediad â Lloegr erbyn hyn yn golygu bod grantiau i sefydliadau tebyg dros y ffin i fyny at 77% yn uwch nag yng Nghymru.

Yn y degawd diwethaf mae llwyddiant Chapter yn y dasg o godi incwm masnachu a grantiau datblygu economaidd i'r elusen, wedi papuro dros y craciau yn y strwythur cefnogi presennol. Ni all hynny guddio'r methiannau arwyddocaol megis, er enghraifft, mewn cyfryngau newydd a chelfyddydau digidol lle rydym wedi annog gweithgareddau a thrafodaeth feirniadol, lle mae mentergarwch a diddordeb yn bodoli - a lle mae cenhedlaeth newydd gyfan o dalent ifanc yn ymddangos o sefydliadau addysg uwch, wedi ennill sgiliau ac uchelgais - ond lle mae'r adnoddau a'r polisïau wedi bod yn hollol annigonol, a Chymru heb godi gyfuwch â datblygiadau'r Deyrnas Gyfunol na datblygiadau rhyngwladol.

**Crynodeb**

Y rheswm dros fodolaeth talent cryf sylfaenol yng Nghymru yw bod ein cymunedau'n elwa ar yr artistiaid angerddol dawnus sy'n fodlon mentro ac sydd wedi ymrwymo i ddiwylliant o fewn Cymru. Mae'r artistiaid yma wedi datblygu eu celfyddyd, mewn llawer o achosion drwy gymorth Chapter, wedi chwilio am waith dramor, wedi datblygu eu gyrfaoedd ochr yn ochr â darlledu, a darganfod marchnadoedd newydd.

Mae darpariaeth drama Eingl-Gymreig wedi lleihau i lefelau peryglus o isel ac mae Cymru wedi methu ymateb yn ddigon awchus i ddatblygiadau diwylliannol newydd a chyfleoedd megis y rhai a gynigir gan y chwyldro digidol. Y prif reswm am y sefyllfa yma yw gwendid cyffredinol yr is-strwythur cefnogi ynghyd â methiant blaenorol polisi cyhoeddus a diffyg adnoddau cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau sydd eto i'w hunioni'n llwyr yng Nghymru.

Ni ellir disgwyl i asiantaethau cyhoeddus ymateb yn gyflym i arloesedd, a dyma lle mae asiantaethau annibynnol fel Chapter mor bwysig. Mae sefydliadau fel Chapter yn medru sicrhau bod y genedl yn ymateb i leisiau newydd ac yn galluogi'n cymunedau i fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol newydd yn ôl y galw.

Janek Alexander, Cyfarwyddydd
Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd CF5 1QE
3 Mawrth, 2003

---

Noder: Mae manylion am weithgareddau Chapter ar gael ar www.chapter.org; mae gan Chapter gyllid o ryw £1.5miliwn; mae'n rheoli adeiladau o dros 80,000 troedfedd sgwâr; mae ganddo dros 50 o denantiaid, ac mae'n cynnig dros 2,000 o ddigwyddiadau i'r cyhoedd bob blwyddyn, a bob blwyddyn mae dros 75,000 o bobl yn talu am fynediad. Mae llawer mwy o ymwelwyr yn manteisio ar fynediad di-dâl i'r ganolfan a'r oriau agor estynedig i weld arddangosiadau, i ddefnyddio'r caffe-bar, i fynychu cyfarfodydd neu gymryd rhan mewn gweithdai a dosbarthiadau. Mae'r elusen yn rhoi 5,000 o oriau o gyngor a chefnogaeth a chymorth i artistiaid a thenantiaid am ddim bob blwyddyn; mae dros 160 o grwpiau cymunedol a defnyddwyr hefyd yn elwa.